



Y Ganolfan
Dysgu Cymraeg
Genedlaethol —
National Centre
for Learning Welsh

ADRODDIAD BLYNYDDOL ANNUAL REPORT

2021-2022



Dysgu
Learn

Lefelau dysgu'r sector Dysgu Cymraeg

Mae cyrsiau Dysgu Cymraeg ar gael ar wahanol lefelau, sy'n cyd-fynd â lefelau dysgu fframwaith Cyngor Ewrop.

Mae'r pwyslais ar bob lefel ar siarad a mwynhau'r iaith.

Enw'r lefel	Disgrifiad	Lefel dysgu Fframwaith Cyngor Ewrop	Isafswm oriau cyswllt a argymhellir
Mynediad	Cyrsiau ar gyfer dechreuwyr, sy'n eich helpu chi i ddysgu am y presennol, y gorffennol a'r dyfodol.	A1	120
Sylfaen	Mae'r lefel hon yn gofyn am rywffaint o brofiad o'r Gymraeg. Bydd cyfleoedd i drafod pynciau pob dydd fel y teulu a ffrindiau, gwaith a diddordebau.	A2	120
Canolradd	Mae'r lefel hon yn addas ar gyfer pobl sy'n gyfarwydd â phrif batrymau'r Gymraeg. Mae cyfle i ddatblygu sgiliau sgwrsio, gyda ychydig mwy o waith ysgrifennu, darllen a gwranddo.	B1	120
Uwch	Dyma gyfle i ymarfer trafod pynciau a themâu o bob math. Bydd dysgwyr hefyd yn datblygu eu sgiliau darllen, ysgrifennu a gwranddo. Meithrin siaradwyr hyderus yw'r prif nod.	B2	360
Gloywi	Mae'r cyrsiau Gloywi, sy'n addas ar gyfer dysgwyr rhugl a siaradwyr iaith gyntaf, yn cael eu teilwra ar gyfer anghenion y dosbarth. Y nod cyffredinol yw datblygu sgiliau ymhellach a helpu i fagu hyder.		

Llun ar y clawr: Dysgwyr yn mwynhau Cwrs Haf Dysgu Cymraeg Caerdydd.

Learning levels in the Learn Welsh Sector

Learn Welsh courses are available at different levels, which correspond to the learning levels of the Common European Framework.

The emphasis on all levels is on speaking and enjoying the language.

Name of level	Description	Learning levels of the Common European Framework	Recommended minimum number of contact hours
Entry	Courses for beginners, helping you to learn about the present, the past and the future.	A1	120
Foundation	This level requires some experience of Welsh. There will be opportunities to discuss everyday subjects such as family and friends, work and interests.	A2	120
Intermediate	This level is suitable for those who are familiar with the main patterns of Welsh. There are opportunities to develop conversational skills, with a little more writing, reading and listening.	B1	120
Advanced	This is an opportunity to discuss all kinds of subjects and themes. Learners also develop their reading, writing and listening skills. The main aim is to enable learners to become confident speakers.	B2	360
Gloywi (Proficiency)	Proficiency courses, suitable for fluent learners and first language speakers, are tailored to the needs of the class. The aim in general is to further develop skills confidence.		

Cover picture: Learners enjoying the Learn Welsh Cardiff Summer Course.

Cynnwys

Amdanom ni	6
Darparwyr cyrsiau y Ganolfan	8
Gair o groeso	10
Rhagair	12
Dysgwyr sy'n ysbrydoli	14
Amcan strategol 1	20
Amcan strategol 2	28
Amcan strategol 3	32
Amcan strategol 4	42
Cysylltwch â ni	48

Contents

About us	7
The Centre's course providers	9
A word of welcome	11
Foreword	13
Inspirational learners	15
Strategic Objective 1	21
Strategic Objective 2	29
Strategic Objective 3	33
Strategic Objective 4	43
Contact us	48

Croeso i Adroddiad Blynyddol 2021-2022 y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Welcome to the National Centre for Learning Welsh Annual Report 2021-2022

Amdanom ni

Cefndir

Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol sy'n gyfrifol am y sector Dysgu Cymraeg i oedolion. Mae'r Ganolfan yn gorff hyd braich wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru a'i gartrefu ym Mhrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant.

Gosododd y Llywodraeth y deilliannau craidd canlynol i'r Ganolfan:

- ▶ Bod yn sefydliad gweledol sy'n gosod cyfeiriad strategol cenedlaethol i'r sector Dysgu Cymraeg.
- ▶ Cynnig arweiniad i'r darparwyr cyrsiau Dysgu Cymraeg.
- ▶ Codi safonau dysgu ac addysgu'r sector Dysgu Cymraeg.
- ▶ Datblygu cwricwlwm cenedlaethol difyr, priodol ac o safon, a chynhyrchu adnoddau sy'n addas i bob mathau o ddysgwyr.

Cynllun Strategol

Mae Cynllun Strategol y Ganolfan yn gosod tri phrif amcan, sef:

- ▶ **Denu:** Agor drysau i ddysgu'r Gymraeg a denu mwy i'w dysgu.
- ▶ **Dysgu:** Darparu cyfleoedd dysgu amrywiol ac o ansawdd uchel.
- ▶ **Defnyddio:** Cefnogi defnydd o'r Gymraeg gan ddysgwyr yn eu bywydau pob dydd.

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn adrodd ar gynnydd yn erbyn yr amcanion hynny.



Dysgwyr yn mwynhau Cwrs Haf Dysgu Cymraeg Caerdydd.



Learners enjoying the Summer Course held by Learn Welsh Cardiff.

About us

Background

The National Centre for Learning Welsh is responsible for all aspects of the Learn Welsh for adults sector. The Centre is an arm's length body funded by Welsh Government and hosted by University of Wales Trinity Saint David.

The Government set the following core outcomes for the Centre:

- ▶ Be a visible institution setting a national strategic direction for the Learn Welsh sector.
- ▶ Provide leadership for the Learn Welsh course providers.
- ▶ Raise standards in teaching and learning in the Learn Welsh sector.
- ▶ Develop a high quality, appropriate and engaging national curriculum, and produce resources suitable for a range of learners.

Strategic Plan

The Centre's Strategic Plan sets out three main objectives:

- ▶ **Attract:** Open doors to learning Welsh and attract more learners.
- ▶ **Learn:** Provide a variety of high quality learning opportunities.
- ▶ **Use:** Support the use of Welsh by learners in their everyday lives.

The Annual Report reports on progress against these objectives.

Darparwyr cyrsiau y Ganolfan

Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda 11 darparwr, sy'n cynnal cyrsiau ar ei rhan.

Brand Lleol	Sefydliad	Ardaloedd Llywodraeth Leol
Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin	Prifysgol Bangor	Gwynedd, Môn, Conwy
Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain	Coleg Cambria/ Popeth Cymraeg	Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam
Dysgu Cymraeg Ceredigion - Powys - Sir Gâr	Prifysgol Aberystwyth	Ceredigion, Powys, Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)
Dysgu Cymraeg Sir Gâr	Cyngor Sir Gâr	Sir Gâr (rhan benodol o'r ddarpariaeth)
Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe	Prifysgol Abertawe	Abertawe, Castell-nedd a Phort Talbot
Dysgu Cymraeg Sir Benfro	Cyngor Sir Benfro	Sir Benfro
Dysgu Cymraeg Gwent	Coleg Gwent	Mynwy, Casnewydd, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili
Dysgu Cymraeg Y Fro	Cyngor Sir Bro Morgannwg	Bro Morgannwg
Dysgu Cymraeg Caerdydd	Prifysgol Caerdydd	Caerdydd
Dysgu Cymraeg Morgannwg	Prifysgol De Cymru	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr
Dysgu Cymraeg Nant Gwrtheyrn	Canolfan Nant Gwrtheyrn	Cenedlaethol

The Centre's course providers

The Centre works with 11 providers, who deliver courses on its behalf.

Local Brand	Organisation	Local Authority Areas
Learn Welsh North West	Bangor University	Gwynedd, Anglesey, Conwy
Learn Welsh North East	Coleg Cambria/ Popeth Cymraeg	Denbighshire, Flintshire, Wrexham
Learn Welsh Ceredigion - Powys - Carmarthenshire	Aberystwyth University	Ceredigion, Powys, Carmarthenshire (specific part of the provision)
Learn Welsh Carmarthenshire	Carmarthenshire County Council	Carmarthenshire (specific part of the provision)
Learn Welsh Swansea Bay Region	Swansea University	Swansea, Neath Port Talbot
Learn Welsh Pembrokeshire	Pembrokeshire County Council	Pembrokeshire
Learn Welsh Gwent	Coleg Gwent	Monmouthshire, Newport, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerphilly
Learn Welsh The Vale	Vale of Glamorgan Council	Vale of Glamorgan
Learn Welsh Cardiff	Cardiff University	Cardiff
Learn Welsh Glamorgan	University of South Wales	Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Bridgend
Learn Welsh Nant Gwrtheyrn	Nant Gwrtheyrn Welsh Language and Heritage Centre	National



Gair o groeso

Yr Hybarch Randolph Thomas

Cadeirydd Bwrdd Cwmni y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Cynyddu'r cyfleoedd i ddysgu a mwynhau ein hiaith yw'r flaenoriaeth i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrth iddi gamu i bennod newydd, yn dilyn penderfyniad Llywodraeth Cymru i ymestyn ei chytundeb hyd at 2027.

O fis Medi 2022 ymlaen, bydd y Ganolfan Genedlaethol yn cyflwyno dwy fenter newydd. Bydd darpariaeth rad ac am ddim ar gyfer pobl 16-25 oed, yn ogystal â rhaglen ddi-gost o hyfforddiant ar gyfer y gweithlu addysg, mewn cydweithrediad â rhwydwaith o bartneriaid.

Mae'r Ganolfan yn parhau i gynnig rhaglenni dysgu eang ac amrywiol. Mae cyfleoedd hunan-astudio a dosbarthiadau wyneb-yn-wyneb a rhithiol, sy ar gael yn ystod y dydd a gyda'r hwyr, mewn gweithleoedd ac yn y gymuned. Mae prosiectau eraill yn targedu sectorau a grwpiau penodol, gan gynnwys y byd iechyd a theuluoedd.

Yn ystod y flwyddyn, cryfhawyd y berthynas gyda SaySomethinginWelsh a Duolingo, er mwyn creu cyfleoedd i'n dysgwyr ymarfer eu Cymraeg y tu allan i'r dosbarth. Mae partneriaeth gyffrous ar y gweill gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru i ddenu dysgwyr newydd yn sgil presenoldeb Cymru yng Nghwpan Pêl-droed y Byd.

Wrth i'r Ganolfan gofleidio'r cyfleoedd sy'n dod i'w rhan, hoffwn ddiolch i'r tîm canolog o staff o dan arweiniad Efa Gruffudd Jones am eu mentergarwch a'u brwdfrydedd, ac i'n darparwyr am eu gwaith. Diolch, hefyd, i fy nghyd-aelodau o Fwrdd y Cwmni ac i Gadeirydd Bwrdd Ymgynghorol y Ganolfan, Rheon Tomos, a'r aelodau, am eu cefnogaeth barhaus.

A word of welcome

The Venerable Randolph Thomas

Chair of the Board of the National Centre for Learning Welsh

Increasing opportunities for people to learn and enjoy our language - that is the priority for the National Centre for Learning Welsh as it embarks on a new chapter, following the Welsh Government's decision to extend its contract to 2027.

From September 2022, the Centre will introduce two new initiatives. There will be free provision for 16-25 year-olds, and a programme of training for the education workforce delivered free of charge, in co-operation with a network of partners.

The Centre continues to offer a wide variety of learning programmes. There are opportunities for self-study and face-to-face and virtual classes, available in the daytime and evenings, in workplaces and in the community. Other projects target specific groups, including healthcare workers and families.

During the year, the relationships with SaySomethinginWelsh and with Duolingo were strengthened, to provide opportunities for our learners to practise their Welsh outside the class. A new, exciting partnership is being developed with the Football Association of Wales to attract new learners in response to Wales qualifying for the Football World Cup.

As the Centre embraces the opportunities that come its way, I would like to extend my thanks to the central staff team under the leadership of Efa Gruffudd Jones for their initiative and enthusiasm, and to our providers for their work. Thank you, also, to my fellow members on the Board of Directors and to the chair of the Centre's Advisory Board, Rheon Tomos, and all its members, for their continuing support.



Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'm cydweithwyr ac i staff y sector Dysgu Cymraeg am eu gwaith a'u brwdfrydedd, a dymuno'n dda iawn i'n holl ddysgwyr.



I would like to sincerely thank my colleagues and staff in the Learn Welsh sector for their work and enthusiasm, and to extend my best wishes to all our learners.

Rhagair

Mwynhau'r Gymraeg

Efa Gruffudd Jones

Prif Weithredwr y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni i gyd, ac mae wedi bod yn fraint i arwain y Ganolfan Genedlaethol dros y flwyddyn ddiwethaf wrth i ni weithredu cynlluniau sy'n croesawu pobl o bob cefndir.

Edrychwn ymlaen at groesawu mwy o bobl ifanc yn yr hydref, wrth i ni gynnal cyrsiau rhithiol penodol ar gyfer y grŵp oedran 18-25 oed, fel rhan o'n cynllun pellgyrhaeddol i gynyddu sgiliau Cymraeg ymysg pobl ifanc, 'Ymlaen gyda'r Dysgu'.

Mae'r prosiect 'Croeso i Bawb' yn mynd o nerth i nerth, gydag adnoddau ar gyfer pobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg wedi eu datblygu. Mae cyrsiau hunan-astudio byrion trwy gyfrwng Wcreineg, Arabeg Syria, Farsi, Pashto a Chantoneg, a chysiau SaySomethinginWelsh trwy gyfrwng Pashto, Dari ac Arabeg wedi'u comisiynu.

Mae lleoli tiwtoriaid mewn ysgolion er mwyn gwneud dysgu'r Gymraeg i rieni yn hwylus yn fenter gyffrous arall, sy'n perthyn i'n cynllun 'Cymraeg yn y Cartref'. Mae sesiynau Clwb Cwtsh, cyrsiau cymunedol, ac adnoddau

'Siarad Babi', a ddatblygwyd ar y cyd â'n partner, Mudiad Meithrin, hefyd yn rhan o'r cynllun.

Erbyn hyn mae dros 1,500 o gyflogwyr yn rhan o'n prosiect 'Cymraeg Gwaith', sy'n cynnig cyfleoedd hyblyg i ddysgu'r Gymraeg yn y gweithle. Datblygwyd porth ar-lein newydd ar gyfer y gweithlu addysg, hefyd, sy'n cyflwyno'r holl ddewisiadau dysgu-am-ddim i'r garfan honno.

Trwy barhau i arloesi a sicrhau darpariaeth amrywiol, 'dyn ni'n gallu gwireddu ein huchelgais o ddenu dysgwyr newydd a sicrhau cyfleoedd i'n dysgwyr fwynhau eu Cymraeg.

Wrth i ni roi'r cynlluniau hyn ar waith, mae cadw dysgwyr wrth galon ein gweithgareddau yn hollbwysig, ac mae'n dda gen i adrodd ar ganlyniadau cadarnhaol ein holiadur blynyddol. Fe ddywedodd 99% o'r ymatebwyr eu bod yn mwynhau dysgu Cymraeg, gyda 70% yn nodi eu bod yn mwynhau'n 'fawr iawn'. Dyma'r ffigwr uchaf erioed.

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'm cydweithwyr ac i staff y sector Dysgu Cymraeg am eu gwaith a'u brwdfrydedd, a dymuno'n dda iawn i'n holl ddysgwyr.

Foreword

Mwynhau'r Gymraeg/Enjoying Welsh

Efa Gruffudd Jones

Chief Executive of the National Centre for Learning Welsh

Cymraeg belongs to us all, and it has been a privilege to lead the National Centre over the last year as we put into action plans that welcome people from all backgrounds.

We look forward to welcoming more young people in the autumn, as we deliver online courses specifically for the 18-25 age group, as part of our far-reaching scheme to increase Welsh language skills among young people.

The 'Croeso i Bawb' (all are welcome) project is going from strength to strength, with resources developed for people whose first language is not English, or who do not speak English fluently. Short courses have been commissioned for self-study through the medium of Ukrainian, Syrian Arabic, Farsi, Pashto and Cantonese, as well as SaySomethinginWelsh courses through the medium of Pashto, Dari and Arabic.

Tutor placements within schools to facilitate learning Welsh for parents is another exciting initiative which is part of the 'Welsh at Home' scheme. Clwb Cwtsh sessions, community

courses and 'Siarad Babi' (Parentese) resources, developed in collaboration with our partner, Mudiad Meithrin, are also part of the scheme.

Over 1,500 employers are now part of our 'Work Welsh' scheme, which provides flexible opportunities to learn Welsh in the workplace. A new online portal has also been developed for the education workforce, showing all the options for free learning available to this sector.

Through our continued innovation and delivery of a wide range of provision, we can realise our ambition of attracting new learners and ensuring our learners have opportunities to enjoy their Welsh.

As we deliver these plans, it is vital we keep our learners at the heart of all that we do, and I am pleased to report the outcomes of our annual survey. 99% of respondents said they enjoyed learning Welsh, with 70% saying they enjoyed 'very much'. This is the highest ever figure.

I would like to sincerely thank my colleagues and staff in the Learn Welsh sector for their work and enthusiasm, and to extend my best wishes to all our learners.

Dysgwyr sy'n ysbrydoli

Dysgwr y Flwyddyn

Llongyfarchiadau enfawr i Joe Healy, enillydd cystadleuaeth Dysgwr y Flwyddyn Eisteddfod Ceredigion 2022.

Daw Joe o Wimbledon, Llundain, ond mae'n byw yng Nghaerdydd ers 10 mlynedd. Fe ddaeth i'r brifddinas i fynd i'r brifysgol, ac fe ddechreuodd ddysgu Cymraeg yn 2018.

Mae Joe yn gaffaeliad i'w gymuned ac eisoes yn llysgennad dros yr iaith - mae'r Ganolfan Genedlaethol yn edrych ymlaen at gydweithio gydag e dros y flwyddyn nesaf i ysbrydoli hyd yn oed yn fwy o bobl i ddysgu'r iaith.

EGC | Ffotonant



Inspirational learners

Welsh Learner of the Year

Huge congratulations to Joe Healy, winner of the Welsh Learner of the Year competition at the 2022 National Eisteddfod in Ceredigion.

Joe is from Wimbledon, London, but has been living in Cardiff for 10 years. He came to the capital city to attend the university, and he started learning Welsh in 2018.

Joe is a valuable member of his community and is already an ambassador for the Welsh language - the National Centre looks forward to working with him over the year ahead to inspire even more people to learn the language.

Enillydd Categori 'Dechrau Arni' gwobrau Ysbrydoli!

Newidiodd Tom Dyer o Sir Benfro ei lwybr gyrfa yn llwyr ar ddechrau Covid-19 a phenderfynu dysgu Cymraeg ar yr un pryd.

Roedd yn gweithio gyda Tenovus yng Nghaerdydd ond symudodd yn ôl i Sir Benfro i fyw gyda'i chwaer a'i nith, ar ôl cael ei ddiswyddo.

Dechreuodd Tom a'i chwaer ryddhau clipiau fideo ar Facebook, er mwyn cynorthwyo pobl i ymdopi yn ystod y cyfnod clo. Yn fuan wedyn, cawsant wahoddiad i gyflwyno sioe frechwast gorsaf radio Pure West Radio.

Ar yr un pryd, dechreuodd Tom ddysgu Cymraeg gyda Dysgu Cymraeg Sir Benfro, ac mae newydd ddechrau cwrs lefel Canolradd. Mae'n mwynhau defnyddio'i Gymraeg ar y radio a siarad yr iaith gyda'i gariad, Helen.

Mae Tom wedi ennill gwobr 'Dechrau Arni - Dysgwr Cymraeg' fel rhan o Wobrau Ysbrydoli! y Sefydliad Dysgu a Gwaith, ac mae pawb yn falch iawn ohono.

Meddai Tomos Hopkins, Tiwtor gyda Dysgu Cymraeg Sir Benfro: "Mae brwdfrydedd Tom dros y Gymraeg yn heintus. Mae bellach yn rhannu ei frwdfrydedd gyda chynulleidfa newydd ar y radio sydd o fudd anferth i'r iaith."

Enillwyr Gwobrau Cenedlaethol Cymraeg Gwaith

Cafwyd llu o enwebiadau, pob un o safon uchel, i wobrau cenedlaethol Cymraeg Gwaith 2022. Llongyfarchiadau i'r chwech enillydd, sef:

Robert Easton
Coleg Llandrillo Menai
Dysgwr Lefel Mynediad

Fiona Hennah
Coleg y Cymoedd
Dysgwr Lefel Sylfaen

Angelina Mitchell
Cwmni ACT Training
Dysgwr Lefel Canolradd

Mark Butler
Ysbyty Maelor Wrecsam
Dysgwr Lefel Uwch+

Dr Lois Slaymaker-Jones
Tiwtor Cymraeg Gwaith y flwyddyn

Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyflogwr Cymraeg Gwaith y flwyddyn

Winner of the Inspire! Awards 'Starting Out' Category

Tom Dyer of Pembrokeshire completely changed his career path at the onset of Covid-19 and decided to learn Welsh at the same time.

Tom was working for Tenovus in Cardiff but returned to live in Pembrokeshire with his sister and his niece, after being made redundant.

Tom and his sister began releasing video clips on Facebook, to help people cope during lockdown. Soon afterwards, they were invited to present Pure West Radio's breakfast show.

At the same time, Tom started to learn Welsh with Learn Welsh Pembrokeshire, and he has just started an Intermediate level course. He enjoys using his Welsh on the radio and speaking the language with his girlfriend, Helen.

Tom has won the 'Starting Out - Welsh Beginner' award as part of the Learning and Work Institute's Inspire! Awards, and everyone is proud of him.

Tomos Hopkins, Welsh tutor at Learn Welsh Pembrokeshire said: "Tom's enthusiasm for the Welsh language is contagious. He now shares his enthusiasm with a new audience on the radio, which is of immense benefit to the language."

Winners of the National Work Welsh Awards

A host of nominations, all of high quality, were received for the 2022 national Work Welsh awards. Congratulations to the six winners:

Robert Easton
Coleg Llandrillo Menai
Entry Level Learner

Fiona Hennah
Coleg y Cymoedd
Foundation Level Learner

Angelina Mitchell
ACT Training company
Intermediate Level Learner

Mark Butler
Wrexham Maelor Hospital
Advanced Level+ Learner

Dr Lois Slaymaker-Jones
Work Welsh Tutor of the Year

Natural Resources Wales
Work Welsh Employer of the Year

"Mae brwdfrydedd Tom dros y Gymraeg yn heintus. Mae bellach yn rhannu ei frwdfrydedd gyda chynulleidfa newydd ar y radio sydd o fudd anferth i'r iaith."

"Tom's enthusiasm for the Welsh language is contagious. He now shares his enthusiasm with a new audience on the radio, which is of immense benefit to the language."

Tiwtoriaid Yfory

Fis Gorffennaf, croesawyd 13 o bobl ifanc i Gaerdydd am bythefnos fel rhan o gynllun Tiwtoriaid Yfory y Ganolfan Genedlaethol.

Y bwriad oedd annog mwy o bobl ifanc i weithio yn y sector Dysgu Cymraeg, a'u cyflwyno i'r posibilïadau o gael gyrfa ym myd addysg. Mae nifer ohonynt yn barod wedi cael gwaith fel tiwtoriaid.

Meddai Macsen Llewelyn Brown:

"Ro'n i'n falch o gael cyfle i arsylwi dosbarthiadau Cymraeg a gweld sut mae'r tiwtoriaid proffesiynol yn gwneud eu gwaith. Fis Medi, bydda i'n mynd dramor am flwyddyn, ond buaswn wrth fy modd yn cael cyfle i ddysgu dosbarth rhithiol, er mwyn defnyddio'r sgiliau newydd dw i wedi eu dysgu."

Meddai Cai Thomas:

"Cefais bythefnos gwerth chweil yng nghwmni'r bobl ifanc a chefais fy ysbrydoli gan diwtoriaid presennol y Ganolfan. Fy hoff ran oedd yr arsylwi a chymryd rhan yn y dosbarthiadau lefel Mynediad. Mi wnes i ddysgu llawer wrth weld sut mae tiwtor yn llwyddo i ddysgu sgiliau newydd ond gwneud hynny wrth gael hwyl yn y broses."

Ychwanegodd Esyllt Einion:

"Trwy gyfrwng y sesiynau hyfforddi bywiog a'r cyfleoedd i arsylwi dosbarthiadau, mae'r cwrs wedi fy arfogi â'r hyder a'r sgiliau sydd eu hangen i fod yn diwtor Dysgu Cymraeg. Mi wnes i fwynhau dysgu mwy am y sector addysg yn ehangach a chlywed am brofiadau siaradwyr gwadd o'r byd addysg yng Nghymru."



Tiwtoriaid Yfory Tutors of Tomorrow

In July, 13 young people were welcomed to Cardiff where they spent two weeks as part of the National Centre's Tiwtoriaid Yfory scheme.

The aim was to encourage more young people to work in the Learn Welsh sector, and to introduce them to the possibility of securing a career in education. Many of them have already progressed to work as tutors.



Macsen Llewelyn Brown said:

"I was glad of the opportunity to observe Welsh classes and to see how professional tutors carry out their work. I will be going abroad for a year, but I would love to have the opportunity to teach a virtual class, so that I can put the new skills I have learned into use."

Cai Thomas said:

"I had a constructive fortnight in the company of the young people and was inspired by the Centre's current tutors. My favourite part was observing and taking part in the Entry-level classes. I learnt a lot by seeing how a tutor teaches new skills, but does so whilst having fun too."

Esyllt Einion added:

"Through the lively training sessions and the opportunities to observe classes, the course has given me the confidence and skills that are needed to be a Learn Welsh tutor. I enjoyed learning more about the education sector more generally, and hearing about the experiences of guest speakers from the field of education in Wales."

Amcan strategol 1

Denu: agor drysau i ddysgu'r Gymraeg

Adnabod y gynulleidfa

Cynhaliwyd prosiect gyda chwmni Beaufort i adnabod rhesymau pobl dros ddysgu Cymraeg ac agweddau at y Gymraeg. Cadarnhaodd y prosiect bod rhesymau amrywiol gyda phobl dros ddysgu, gyda chryfhau sgiliau yn brif reswm ymhlith y to ifanc.

Cynhaliwyd holiadur gyda dysgwyr ifanc cyfredol y Ganolfan a arweiniodd at gynnal Grŵp Ffocws Pobl Ifanc. Mae'r data a'r dystiolaeth a gasglwyd o ganlyniad i'r prosiectau hyn wedi dylanwadu ar yr ymgyrchoedd a'r ddarpariaeth sy ar gael.

Recriwtio

Ers dechrau'r pandemig mae'r Ganolfan Genedlaethol wedi canolbwyntio ar farchnata digidol fel ffordd o ddenu dysgwyr newydd. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cynhaliwyd ymgyrchoedd helaeth ar Facebook a Google Search, i ddenu dysgwyr newydd i gyrsiau Ionawr 2022 ac i gyrsiau byrion hunan-astudio y cynllun Cymraeg Gwaith. Recordiwyd

hysbysebion sain a ddarledwyd ar wahanol orsafoedd radio a phodlediadau.

Rhannwyd ymgyrch haf 2022 yn ddwy ran, gyda gweithgareddau i ddenu dysgwyr newydd i gyrsiau Mynediad mis Medi, a gweithgareddau i recriwtio dysgwyr 18-25 oed. Fe gydweithiodd y Ganolfan gyda dylanwadwyr ar TikTok ac Instagram ar gyfer yr ymgyrch pobl ifanc.

Cynhyrchwyd pecynnau adnoddau digidol ar gyfer darparwyr cyrsiau'r Ganolfan, i'w defnyddio'n lleol, gan gynnwys deunyddiau 'Cyw Cynnar', sef cynnig gostyngiad i bob dysgwr cyfredol.

Fe ddechreuodd ambell i ddarparwr gynnal gweithgareddau marchnata stryd, a chynhyrchwyd cylchgrawn 'Hwyl yr Haf' i gefnogi'r gwaith hwnnw; nod y cylchgrawn, hefyd, yw rhoi hwb i ddysgwyr cyfredol i ddal ati dros y gwyliau.

Dyluniadau gan yr artist Mari Phillips, a ddefnyddiwyd ar fatiau diod a'r cyfryngau cymdeithasol fel rhan o'r ymgyrch i ddenu dysgwyr ifanc.



Strategic objective 1

Attract: opening doors to learning Welsh

Getting to know the audience

A project was undertaken with Beaufort Research to identify people's reasons for learning Welsh and attitudes towards the Welsh language. The project confirmed that people have a range of reasons for learning, with improving skills the main reason among the younger generation.

A survey was conducted with the Centre's current young learners which led to a Focus Group for Young People. The data and evidence gathered as a result of these projects have informed our campaigns and the provision on offer.

Recruitment

Since the onset of the pandemic, the National Centre has focused on digital marketing as a means of attracting new learners. Over the past year, extensive campaigns were conducted on Facebook and Google Search, to attract new learners to courses in January 2022 and to short

self-study courses on the Work Welsh scheme. Audio advertisements were recorded and broadcast on various radio stations and podcasts.

The summer 2022 campaign was divided into two parts, including activities to attract new learners to Entry courses for September, and activities aimed at recruiting 18-25 year-old learners. The Centre worked with influencers on TikTok and Instagram for the young learners' campaign.

Digital resource packs were created for the Centre's course providers for local use, including 'Early Bird' materials, which were centred on offering a discount to all current learners.

Some providers started to hold street marketing activities, and a magazine entitled 'Hwyl yr Haf' (summer fun) was produced to support this work; the magazine also aims to encourage current learners to enjoy using their Welsh over the holidays.



Designs by artist Mari Phillips, used on drink mats and on social media as part of the campaign to attract young learners.

Partneriaethau

Mae'r Ganolfan yn gweithio gyda lluo o sefydliadau, gan gynnwys y Sefydliad Dysgu a Gwaith, CWVYS, Addysg Oedolion Cymru, yr Eisteddfod Genedlaethol, Mudiad Meithrin ac eraill, i hyrwyddo cyfleoedd Dysgu Cymraeg i gynulleidfaoedd eang. Mae'r Ganolfan yn bwriadu gweithio gyda Chymdeithas Bêl-droed Cymru yn yr hydref i hyrwyddo cyrsiau i gefnogwyr pêl-droed.



Aelodau cymuned 'Ballroom De Cymru' yn helpu hyrwyddo cyrsiau Dysgu Cymraeg.

Members of the South Wales Ballroom Community helping to promote Learn Welsh courses.



Partnerships

The Centre works with a wide range of organisations, including the Learning and Work Institute, CWVYS, Adult Learning Wales, the National Eisteddfod, Mudiad Meithrin and others, to promote opportunities to learn Welsh among wide-ranging audiences. The Centre is planning to work with the Football Association of Wales in the autumn to promote courses for football supporters.

Ysbrydoli eraill

Mae diddordeb mawr yn ein dysgwyr, ac yn ystod y flwyddyn cyhoeddwyd llif cyson o astudiaethau achos, cyfweiliadau a phortreadau. Mae nifer o'u lluniau i'w gweld yn yr adroddiad yma.

Dewin Dysgu

Bellach mae cyfle i ddarpar ddysgwyr ddefnyddio adnodd digidol newydd sbon o'r enw'r 'Dewin Dysgu' ar dysgucymraeg.cymru. Nod yr adnodd yw helpu dysgwyr i ddod o hyd i gwrs addas iddyn nhw, o ran y lefel dysgu, dwyster ac amser o'r dydd. Mae'r Dewin yn gofyn cyfres o gwestiynau cyn cyflwyno dewis o gyrsiau perthnasol.



Edina Potts-Klement a Lin Dodd

Rhoi'r dysgwyr yn gyntaf

Mae'r dysgwyr wrth galon ein gwaith, ac mae'r Ganolfan yn cynnal holiadur barn cenedlaethol o'r enw 'Dweud eich Dweud' i ganfod sut mae dysgwyr yn teimlo am eu cyrsiau, gan adnabod unrhyw gyfleoedd i gryfhau'r ddarpariaeth.

Cafwyd
2,600
o ymatebion yn 2021 a dyma
rai o'r prif ganfyddiadau:

99%
o'r ymatebwyr yn mwynhau
dysgu Cymraeg (gyda 70% yn
mwynhau 'yn fawr iawn')

93%
yn disgrifio'r profiad dysgu yn
dda iawn (64%) neu'n dda

77%
yn defnyddio'r Gymraeg y tu
allan i'r dosbarth

Inspiring others

There is much interest in our learners, and during the year, a constant stream of case studies, interviews and profiles were published. Many of the learners are pictured in this report.

Learning Wizard

Prospective learners now have the opportunity to use a brand new digital tool called the 'Learning Wizard' on learnwelsh.cymru. The aim of this tool is to help learners find a suitable course, in terms of the learning level, intensity and time of day. The Wizard asks a series of questions before offering a choice of relevant courses.



Bethan Howells



Martina Roberts

Putting learners first





Our learners are at the heart of our work, and the Centre conducts an annual national survey called 'Dweud eich Dweud' (have your say) to find out how learners feel about their courses and to identify any opportunities to strengthen the provision.

2,600
responses were received in 2021
and these are some of
the main findings:

99%
of respondents enjoy learning
Welsh (with 70% enjoying
'very much')

93%
described the learning
experience as very good (64%)
or good

77%
use Welsh outside the class



Data

Mae data'r sector Dysgu Cymraeg yn cael eu rheoli gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae cronfa ddata ganolog yn casglu gwybodaeth gan bob dysgwr wrth iddynt gofrestru ar gwrs. Y data diweddaraf sy ar gael yw'r data ar gyfer y flwyddyn academaidd **2020-2021**.

Mae data 2020-2021 yn cynnwys gweithgaredd y sector yn ystod cyfnod y pandemig. Effeithiwyd ar weithgaredd y sector wrth i ddysgu wyneb-yn-wyneb ddod i ben ym Mawrth 2020. Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn rhannol yn nata 2019-2020 ac yn rhannol yn nata 2020-2021.

Bu toriad i gyllid cynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan yn Ebrill 2020. Yn sgil hynny, ni fu'n bosib cynnig cyrsiau dwys ar bob lefel ond llwyddwyd i gynyddu'r dewis o gyrsiau hunan-astudio ar lefel Mynediad. Parhaodd y toriad i gyllid y cynllun tan ddiwedd Mawrth 2021, ac felly bu effaith ar ddata 1 Awst 2020 i 31 Gorffennaf 2021.

O edrych ar ddata'r blynyddoedd diwethaf, mae'n galonogol i weld cynnydd graddol yn y niferoedd sy'n dysgu Cymraeg. Dros yr un cyfnod, gwelir cynnydd sylweddol yn nifer y gweithgareddau dysgu.



Nifer y dysgwyr unigryw 2020-2021

Mae 'nifer y dysgwyr unigryw' yn cyfrif pob dysgwr unwaith yn unig, faint bynnag o gyrsiau maent wedi eu dilyn yn ystod y flwyddyn.

Mae data 2020-2021 o'i gymharu â data 2019-2020 yn cynnwys mwy o ddysgwyr yn dysgu ar lefelau uwch.

Mae niferoedd is 2020-2021 yn adlewyrchu lleihad yn niferoedd y dysgwyr a ddilynodd gyrsiau hunan-astudio ar lefel Mynediad.

2017 – 2018	12,680
2018 – 2019	13,260
2019 – 2020	17,505
2020 – 2021	14,965



Nifer y gweithgareddau dysgu 2020-2021

Gall dysgwyr fynychu mwy nag un gweithgaredd dysgu ar lefel neu ddwyyster gwahanol yn ystod y flwyddyn. Er enghraifft, gall dysgwr unigol fynychu cwrs 170 - 259 awr ar lefel Mynediad yn ogystal â chwrs megis Sadwrn Siarad yn ystod yr un cyfnod. Cyfrifir hyn fel dau weithgaredd dysgu.

Cymerodd dysgwyr **2020-2021** ran mewn **29,175** o weithgareddau dysgu, lleihad o **3%** o'i gymharu â 2019-2020. Mae dysgwyr unigol wedi dilyn mwy o weithgareddau dysgu y pen yn ystod **2020-2021**, ac felly wedi dysgu yn fwy dwys na **2019-2020**.

2017 – 2018	19,490
2018 – 2019	20,330
2019 – 2020	30,115
2020 – 2021	29,175

Bydd data 2021-2022 yn cael eu cyhoeddi fis Mawrth 2023.

Data

The Learn Welsh sector's data is managed by the National Centre for Learning Welsh.

A central database gathers information from all learners as they enrol on a course. The latest available data is for the **2020-2021** academic year.

The 2020-2021 data includes activity during the pandemic period. The activity of the sector was affected by the end of face-to-face learning during March 2020. This is partly reflected in the 2019-2020 data and partly in the 2020-2021 data.

Funding for the Centre's Work Welsh scheme was reduced in April 2020. As a result, it has not been possible to offer intensive courses at all levels but the choice of self-study courses at Entry level has been increased. The reduction to the scheme's funding continued until the end of March 2021, and so data from 1 August 2020 to 31 July 2021 was affected.

Looking at the data for the past few years, it is encouraging to see a gradual increase in the numbers learning Welsh. Over the same period, a substantial increase is shown in the number of learning activities.



Number of unique learners 2020-2021

The 'number of unique learners' counts every learner only once, regardless of the number of courses they have attended during the year.

The 2020-2021 data, compared with the 2019-2020 data shows more learners learning at higher levels.

The lower numbers in 2020-2021 reflect the decrease in the number of learners following self-study courses at Entry level.

2017 – 2018	12,680
2018 – 2019	13,260
2019 – 2020	17,505
2020 – 2021	14,965



Number of learning activities 2020-2021

Learners can attend more than one learning activity at various levels and intensities during the year. For example, a single learner can attend a 170-259 hour course at Entry level as well as a course such as a 'Sadwrn Siarad' (Saturday workshop) during the period in question. This is considered as two learning activities.

The **2020-2021** learners participated in **29,175** learning activities, a decrease of **3%** compared to 2019-2020. Individual learners have participated in more learning activities per head during **2020-2021**, and have therefore been learning more intensively than in **2019-2020**.

2017 – 2018	19,490
2018 – 2019	20,330
2019 – 2020	30,115
2020 – 2021	29,175

The 2021-2022 data will be published in March 2023.

Amcan strategol 2

Dysgu: darparu gwasanaethau Dysgu Cymraeg rhagorol i bawb

Ymlaen gyda'r Dysgu

Er mwyn cyfrannu at gynyddu sgiliau Cymraeg ymysg pobl ifanc, sefydlwyd cynllun newydd o'r enw 'Ymlaen gyda'r Dysgu' yn 2021 i ddatblygu partneriaethau gyda'r sectorau addysg statudol ac anstatudol.

Cyflwynwyd cwrs hunan-astudio ar gyfer is-raddedigion a chwrs hunan-astudio wedi ei deilwra ar gyfer athrawon. Cynhaliwyd cynllun peilot gyda'r sector Addysg Bellach i adnabod anghenion myfyrwyr a chynhaliwyd ymchwil gyda CBAC i adnabod anghenion dysgwyr ôl-statudol a'u lleoli yn y ddarpariaeth Dysgu Cymraeg.

Arweiniodd y gwaith hwn at gynllun 'Ymlaen gyda'r Dysgu 2022+', sy hefyd yn ymateb i ofynion Llywodraeth Cymru i ddarparu cyfleoedd Dysgu Cymraeg am ddim i bobl 16-25 oed o fis Medi 2022. Mae'r cynllun diwygiedig yn cynnwys cyrsiau penodol rhithiol ar lefelau Mynediad a Sylfaen ar gyfer pobl 18-25 oed, gyda opsiwn i ddysgu'n ddwys trwy ddilyn cwrs cyfunol. Mae'r cyrsiau hyn yn dechrau yn hydref 2022.

Croeso i bawb



Ers sawl blwyddyn, mae'r Ganolfan wedi datblygu gwaith i groesawu pobl nad yw'r Saesneg yn iaith gyntaf iddynt neu nad ydynt yn siarad llawer o Saesneg. Lluniwyd cwrs blasu penodol Croeso i Bawb, sy bellach yn cael ei drosi'n gwrs hunan-astudio. Ar ben hyn, er mwyn cyflwyno agweddau pwysig ar y

Gymru gyfoes, comisiynwyd unedau croesawu mewn pum iaith: Cantoneg, Arabeg Syria, Farsi, Pashto ac Wcreineg.

Mewn partneriaeth gyda SaySomethinginWelsh, bydd offeryn digidol ar gael i helpu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i ddysgu Cymraeg llafar trwy gyfrwng ieithoedd Arabeg, Pashto a Dari.

Cyrsiau cyfunol

